Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanystumdwy
# Llanystumdwy
# Criccieth
# Gwynedd
# LL52 0SP

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llanystumdwy yn gwasanaethu pentref Llanystumdwy ger Cricieth yng Ngwynedd a'r ardal wledig gyfagos. Mae'n ysgol dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru.

Mae 39 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys pump o ddisgyblion rhan-amser oed meithrin. Daw 69% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol.

Dau a hanner y cant o'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn ddi-dâl, ffigwr sy'n llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae 18% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd hefyd yn is na'r ffigwr cenedlaethol, gydag un disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2011. Athrawes ar gytundeb dros dro oedd yn addysgu dosbarth y Cyfnod Sylfaen ers Medi 2011 yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanystumdwy yn 2011-2012 yw £3,397. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £7,732 a'r lleiafswm yw £2,745. Mae Ysgol Llanystumdwy yn safle 53 o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Llanystumdwy yn dda gan fod:

- cyflawniadau'r disgyblion yn saith ac yn un ar ddeg mlwydd oed yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod â rhai ysgolion tebyg;
- disgyblion yn cyfranogi'n llawn yn y gwersi ac yn dangos cynnydd clir yn eu gallu i weithio fel dysgwyr annibynnol;
- yr addysgu yn gyson dda drwy'r ysgol, gyda defnydd effeithiol o'r cymorthyddion dosbarth;
- ystod briodol o brofiadau dysgu, yn cael eu cyfoethogi gan nifer o ymweliadau addysgol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo nifer o agweddau ar les disgyblion yn effeithiol.

Fodd bynnag:

- mae diffygion yng ngweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu plant.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda gan fod:

- y pennaeth wedi cyflwyno nifer o flaengareddau buddiol a phennu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad yr ysgol;
- defnydd effeithiol o ddata i fesur cynnydd ac ar gyfer darparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion yn ôl yr angen;
- sustemau hunan-arfarnu treiddgar yn eu lle sydd wedi arwain at ddarlun dilys o'r agweddau lle mae angen gwelliant; a'r
- cynllun datblygu ysgol yn nodi blaenoriaethau clir a strategaethau addas ar gyfer eu gweithredu.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, dylai'r ysgol:

A1 sicrhau mwy o gynnydd yng ngwaith disgyblion o allu uwch yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn ysgrifennu;

A2 gwella'r ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion er mwyn rhoi arweiniad penodol iddynt ar yr hyn i'w wneud i wella ansawdd eu gwaith;

A3 cynyddu cyfraniad y corff llywodraethol yn y prosesau hunan arfarnu a datblygu ymhellach eu swyddogaeth fel cyfeillion beirniadol; ac

A4 yn ddiymdroi, rhoi sylw i'r materion yn ymwneud â'r polisi a gweithdrefnau ysgol ar gyfer diogelu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfran y disgyblion saith mlwydd oed sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn gyffredinol wedi cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu o ysgolion dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn aml wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Prin iawn yw'r disgyblion a gyrhaeddodd lefel 3 dros gyfnod mewn unrhyw bwnc, er y bu gwelliant yn y Gymraeg yn 2011.

Yng nghyfnod allweddol 2, bu patrwm clir o welliant yng nghyflawniadau disgyblion 11 mlwydd oed. Mae'r gyfran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) dros gyfnod yn gyffredinol wedi bod o gwmpas neu'n uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf , mae'r canlyniadau wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol yn ddi-dâl. Bu cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion yn cyrraedd lefel 5 yn 2011 i safle ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mae hyn yn dilyn cyfnod o fod islaw ffigurau'r teulu mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae cyflawniadau'r merched ar lefel 5 yn arwyddocaol is na'r bechgyn, yn enwedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y gwersi, mae disgyblion yn gweithio'n gynhyrchiol ac yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn y nodau dysgu. Maent yn dangos gallu cynyddol i weithio'n annibynnol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol ar sail eu nodau dysgu penodol.

Ar y cyfan, mae medrau llafar disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac ar ei gilydd. Dônt yn gynyddol hyderus yn siarad am eu gwaith, a hynny yn y ddwy iaith yng nghyfnod allweddol 2, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Mae disgyblion yn dangos parodrwydd i gynnig ymatebion pan gânt eu holi gan eu hathrawon. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 , nid yw gallu disgyblion i ymateb yn fwy estynedig a digymell wrth drafod fel dosbarth gystal ag y gallai fod. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio â'i gilydd, gyda disgyblion o gartrefi di-gymraeg yn dod yn rhugl yn y Gymraeg yn fuan.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Medr y rhan fwyaf yn dod i ddarllen ar goedd yn glir ac ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan oslefu'n briodol. Mae oed darllen llawer o'r disgyblion yn cyfateb i neu uwchlaw eu hoedrannau cronolegol. Mae disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i wella ar eu medrau darllen yn gwneud cynnydd priodol.

Mae disgyblion yn magu diddordeb mewn llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr eiddgar. Gall disgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 drafod yn frwd y cymeriadau a'r digwyddiadau yn y storiâu y maent wedi eu darllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ymchwilio i gywain gwybodaeth ar faterion amrywiol, gan ddefnyddio eu medrau trawsieithu i gyflwyno gwybodaeth.

Yn sgil eu gwaith â'r 'reading journal', mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu gallu i ymateb i ffuglen Saesneg. Nid yw disgyblion o allu uwch yn datblygu'n llawn eu gallu i ymateb i lyfrau drwy lunio adolygiadau.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cychwynnol priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion cynyddol, gan ddechrau amrywio brawddegau a defnyddio atalnodi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd yn eu gallu i ysgrifennu i ystod gynyddol o bwrpasau yn y ddwy iaith, yn cynnwys mynegi barn ar faterion cyfoes. Mae gwaith llawer o'r disgyblion yn dangos safonau priodol o ran cywirdeb iaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, ynghyd â'r gallu i drefnu eu gwaith yn baragraffau ac atalnodi. Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cynhyrchu gwaith creadigol diddorol yn Saesneg sy'n cynnwys cyffyrddiadau da o ran arddull a geirfa.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, nid oes digon o gynnydd o ran hyd ac ansawdd yng ngwaith ysgrifennu ychydig o'r disgyblion sydd â'r gallu i gyflawni ar y lefelau uwch. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o ddefnydd o fedrau ail-ddrafftio i wella ar eu hymdrechion cyntaf.

Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig mewn pynciau eraill fel hanes, ond nid yw'r agwedd hon wedi ei datblygu'n llawn.

**Lles: Da**

Mae gan y disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn canolbwyntio mewn gwersi ac yn cymryd diddordeb yn eu gwaith. Yn gyffredinol, maent yn dal ati i gwblhau eu tasgau gydag annibyniaeth gynyddol. Ar adegau, nid yw lefelau cymhelliant a dyfalbarhad disgyblion dosbarth cyfnod allweddol 2 cystal pan fyddant wedi bod yn gweithio'n annibynnol am gyfnod mewn grwpiau.

Mae disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac yn ymddwyn yn briodol. Dangosant aeddfedrwydd a gofal wrth ymdrin â phlant iau. Mae lefelau presenoldeb yr ysgol dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol â rhai ysgolion tebyg.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cyfrannu at benderfyniadau ar ystod o faterion, yn cynnwys datblygu'r ardd ysgol a'r clwb cadw'n heini 'Dal i Fynd'.

Trwy ystod o weithgareddau yn yr ysgol a'r profiadau allgyrsiol , mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Mae eu cyfraniad at weithgareddau cymunedol yn nodwedd gref. Maent wedi codi arian at nifer o elusennau ac achosion da.

Mae'r disgyblion hŷn yn dysgu am fyd gwaith trwy fod yn gyfrifol am y siop ffrwythau, yn cynnwys cynhyrchu a gwerthu nwyddau. Mae disgyblion o bob oedran yn dechrau datblygu'r medrau sydd eu hangen i wella eu dysgu eu hunain.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymweliadau addysgol a'r defnydd wna'r ysgol o'r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae systemau cynllunio'r ysgol yn drwyadl ac yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad da o weithgareddau amrywiol. Mae cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, ynghyd â medrau meddwl, yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio. Er bod yr athrawon yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion, nid yw hyn bob amser yn diwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog, yn enwedig mewn ysgrifennu yn estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae darpariaeth briodol ar gyfer yr iaith Gymraeg ac mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio holl waith yr ysgol. Gwna'r ysgol ddefnydd helaeth o'r Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol yn Nhŷ Newydd ac amgueddfa Lloyd George. Mae cyfleoedd priodol i'r disgyblion astudio'r amgylchedd lleol, ynghyd â hanes a llên gwerin yr ardal.

Mae gweithgareddau eco, masnach deg, yr ardd a'r defnydd o adnoddau lleol i hybu gwybodaeth y plant o gynaladwyedd a'r amgylchfyd yn datblygu'n dda. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r modd y mae'r ystod o brofiadau ar y dyddiau rhyngwladol tymhorol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda yn y ddau ddosbarth. Defnyddia'r athrawon amrywiaeth o ddulliau dysgu sydd yn ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n dda, er nad yw'r disgwyliadau yn y ddau ddosbarth bob amser yn ddigon heriol i'r plant hŷn a mwy abl.

Mae'r berthynas rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn un sy'n annog parch a chwrteisi, gydag ethos cefnogol ac awyrgylch gweithgar yn y dosbarthiadau. Defnyddia'r athrawon ystod o adnoddau, gan gynnwys technoleg gwybodaeth, yn effeithiol yn y gwersi. Mae'r cymorthyddion dosbarth yn cyfrannu'n effeithiol at y dysgu.

Caiff cynnydd disgyblion ar draws yr ysgol ei dracio'n effeithiol er mwyn nodi disgyblion sydd yn tangyflawni a darparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth yn deillio o'r sustemau asesu yn briodol wrth gynllunio gwaith pellach. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion i asesu gwaith eu hunain a gwaith ei gilydd.

Derbynia'r disgyblion adborth llafar adeiladol ar eu hymdrechion. Mae gwaith ysgrifenedig disgyblion ei farcio'n rheolaidd ond nid yw'r sylwadau yn gwneud digon i ddangos i'r disgyblion yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda yn rheolaidd am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhaliol sy'n meithrin gwerthoedd megis tegwch a pharch. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion Caiff manteision byw yn iach eu hyrwyddo'n effeithiol ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol. Rhydd yr ysgol sylw arbennig i anghenion personol, emosiynol ac addysgol y disgyblion. Mae darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion mewn sesiynau addoli ar y cyd ac mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol a diwylliannol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni ac asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion lle bo angen.

Nid oes gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer diogelu. Nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu wedi eu datblygu'n llawn.

Mae cynhaliaeth effeithiol ar gyfer anghenion addysgol arbennig. Mae gan bob disgybl ar gofrestr anghenion arbennig yr ysgol gynlluniau addysg unigol priodol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd ddwywaith y flwyddyn. Derbynia'r disgyblion hyn gymorth priodol gan y cymorthyddion dosbarth. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigwyr allanol i gefnogi unigolion yn rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae pob disgybl â hawliau cyfartal i holl feysydd y ddarpariaeth ac yn cael eu hannog i gyfrannu'n llawn i fywyd yr ysgol.

Mae'r adeilad yn darparu dosbarthiadau a chyfleusterau priodol, a gwna'r ysgol ddefnydd llawn o bob rhan o'r adeilad. Er bod yna ardaloedd allanol wedi eu creu ar gyfer gweithgareddau'r cyfnod sylfaen, nid ydynt hyd yma wedi eu datblygu i'w llawn botensial. Gwna'r ysgol lawer i arddangos gwaith ysgrifenedig disgyblion.

Caiff yr adeiladau a'r tir eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn darparu amgylchedd priodol ar gyfer chwarae a dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mae'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cyfeiriad strategol eglur i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth, y staff, a'r llywodraethwyr yn cydweithio'n dda i gyflwyno strategaethau newydd ar gyfer codi safonau disgyblion.

Mae pob aelod o staff yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau ac yn cydweithio'n agos gyda'i gilydd fel tîm. Llwyddodd yr ysgol mewn byr amser i greu ystod eang o weithdrefnau effeithiol sydd bellach ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles y disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan y pennaeth ac mae ganddynt wybodaeth dda ynglŷn â'r ysgol. Maent yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu, ond nid yw eu rôl fel ffrind beirniadol a'u rhan ym mhroses hunan arfarnu'r ysgol wedi datblygu'n ddigonol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Sefydlwyd darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gydag ystod dda o adnoddau addas a phrofiadau ysgogol. Mae'r ysgol yn datblygu'r sylw a roddir i lais y dysgwr ymhob elfen o fywyd yr ysgol. Mae cysylltiadau adeiladol a rheolaidd wedi eu sefydlu gydag ysgolion lleol eraill i gyd-gynllunio ac i rannu arfer dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn drylwyr. Maent yn cynnwys trafodaethau staff, archwilio a diweddaru dogfennaeth yr ysgol, monitro'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwadau dosbarth a dadansoddi a lefelu gwaith plant. O ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod yn glir y meysydd i'w datblygu. Mae'r ysgol yn gwrando ar farn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac yn rhoi darlun clir ac arfarnol o gryfderau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio'n ddigonol at yr agweddau i'w datblygu ymhellach.

Mae'r cynllun datblygu'r ysgol o ansawdd da. Mae'n cofnodi'n effeithiol y blaenoriaethu ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys y targedau ar gyfer gweithredu, amserlen gweithredu ynghyd â'r meini prawf llwyddiant.

Mae'r ysgol yn cynnal cyfarfodydd mewnol i gynllunio'r cwricwlwm ac i rannu arferion addysgu diweddaraf megis datblygu medrau meddwl, asesu ar gyfer dysgu a thracio cynnydd disgyblion. Y mae'n rhan o gymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion lleol sy'n gweithio ar wella gwaith ysgrifennu estynedig ac yn edrych ar asesu ar gyfer dysgu. Mae'r partneriaethau hyn yn dylanwadu'n bositif ar gynllunio ac ar ddatblygu'n effeithiol yr arferion diweddaraf mewn addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n helaeth gydag ysgolion eraill y clwstwr er mwyn rhannu arfer dda, cyd-gynllunio a chymedroli a chyd-safoni gwaith. Mae partneriaeth gref gyda'r rhieni ac Mae'r defnydd o wirfoddolwyr efo cynlluniau darllen a helpu i ddatblygu medrau llafar yn Saesneg wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r disgyblion hefyd wedi elwa o gyfraniad arbenigol gwirfoddolwyr wrth ddatblygu'r ardd.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o'r gymuned ac adnoddau cymunedol megis y neuadd a'r eglwys. Mae aelodau o'r gymuned yn cael eu gwahodd i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion ac i ehangu eu gwybodaeth mewn amryw o bynciau. Mae partneriaeth agos rhwng yr eglwys a'r ysgol sydd yn hybu datblygiad ysbrydol y disgyblion. Mae cysylltiadau cryf rhwng y cylch meithrin a'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r holl staff yn cydweithio yn dda ac yn rhannu eu harbenigedd er budd y disgyblion. Mae gwaith tîm ymysg y staff yn treiddio holl waith yr ysgol ac wedi

arwain at welliannau amlwg yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r staff ategol yn gryfder yn yr ysgol ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a lles disgyblion o bob oed a gallu.

Darperir cyfleoedd eang ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff cyfan ac mae cysylltiad agos rhwng yr hyfforddiant â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad a chaiff y staff gyfleoedd priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae gan yr ysgol gyflenwad helaeth o adnoddau dysgu , er mai cymharol gyfyng yw'r hyn sydd ar gael ar gyfer dysgu yn yr awyr agored.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

**Data perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 1, mae pob un o'r disgyblion saith oed wedi cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Ac eithrio mewn gwyddoniaeth yn 2009 ac mewn Cymraeg yn 2010, mae pob disgybl wedi cyflawni lefel 2 ym mhob pwnc yn unigol dros y pum mlynedd ddiwethaf. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.

Mae'r perfformiad hwn dros gyfnod yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion eraill y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran hawl i brydau ysgol di-dâl, mae perfformiad yr ysgol wedi bod gan mwyaf yn y 25% uchaf o ysgolion.

Roedd canran y disgyblion saith mlwydd oed a gyrhaeddodd lefel 3 mewn Cymraeg yn uwch na'r teulu yn 2011 ond wedi bod yn sylweddol is dros y blynyddoedd blaenorol. Ni chyflawnodd unrhyw ddisgybl lefel 3 mewn darllen nac ysgrifennu yn 2011. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, bron yn ddieithriad, ni chyrhaeddodd unrhyw ddisgybl lefel 3 yn y pum mlynedd ddiwethaf. Y mae hyn yn cymharu'n anffafriol ag ysgolion tebyg.

Mae pob disgybl 11 mlwydd oed wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf. Y mae hyn yn cymharu'n ffafriol dros gyfnod â ffigurau cenedlaethol a'r teulu o ysgolion, ac wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion â lefelau tebyg o brydau ysgol di-dâl yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched.

Bu cynnydd sylweddol mewn cyflawniadau ar lefel 5 yn 2011, yn enwedig mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg, oedd yn gosod yr ysgol yn y 25% o ysgolion tebyg yn genedlaethol . Roedd hyn yn dilyn patrwm o ostyngiad yn y blynyddoedd blaenorol, pan oedd cyflawniadau ar lefel 5 yn gyffredinol yn cymharu'n anffafriol ag ysgolion eraill y teulu ac ysgolion tebyg yn genedlaethol. Yn gyffredinol, mae niferoedd llai o ferched na bechgyn yn cyflawni ar y lefel uwch. Mae'r bwlch mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn arwyddocaol fwy nag ydyw yn ysgolion eraill y teulu.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Holiaduron dysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan bob un o ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol, sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer pob agwedd.

Mae bron y cyfan o'r disgyblion yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu helpu i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, a bron y cyfan yn nodi bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achos o fwlio ac yn rhoi cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae pob un yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor ac yn nodi bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach.

### Holiaduron rhieni/gofalwyr

Derbyniwyd 19 o holiaduron wedi eu llenwi gan rieni/gofalwyr.

Mae'r ymatebion yn gadarnhaol ac o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Mae pob rhiant yn cytuno neu gytuno'n gryf bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am eu cynnydd. Mae pob rhiant yn nodi bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn cael eu hannog i gadw'n iach. Noda bron y cyfan o'r rhieni bod safonau ymddygiad yn dda. Mae pob rhiant o'r farn bod yr addysgu'n dda a bod staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch. Mae pob rhiant yn nodi eu bod yn deall trefn gwyno'r ysgol a bron y cyfan eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â chodi unrhyw fater. Mae pob rhiant yn cytuno neu gytuno'n gryf bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iolo Dafydd | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| Gwynoro Jones | Arolygydd Lleyg |
| April Wiggins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Cathryn Davey (pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |